**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
a
Julie James AC
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

29 Hydref 2015

**Craffu ar y Gyllideb**

Annwyl Weinidogion

Diolch i chi am gytuno i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fel rhan o'r broses o graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Cyn y cyfarfod hwnnw, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar os gallech roi gwybodaeth am y materion canlynol i'w gynorthwyo yn y gwaith o graffu.

**Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb**

- Byddai'r Pwyllgor yn croesawu sylwadau eto ar bob un o'r camau gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau arwyddocaol ers y Gyllideb Atodol Gyntaf 2015-16 (Mehefin 2015) ac esboniad arnynt, fel sydd wedi'i ddarparu yn y blynyddoedd diwethaf.
- Dadansoddiad o Brif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau 2016-17 fesul Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, gyda dadansoddiad o ddyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16 a'u canlyniadau amcanol, a chanlyniadau terfynol 2014-15 wedi'u cynnwys.

**Y Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau addysg**

- Sut y mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn cyd-fynd ag ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a sut y mae cyllidebau o fewn eich portffolio wedi cael eu blaenoriaethu yng ngoleuni'r rhain.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

- Ai'r tair blaenoriaeth addysg gennych o hyd yw, cynyddu safonau o ran llythrennedd, cynyddu safonau o ran rhifedd, a mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, a sut y mae cyllidebau wedi'u blaenoriaethu yn unol â hynny: o ran blaenoriaethu'r tri maes blaenoriaeth dros agweddau eraill ar y portffolio Addysg a Sgiliau a'r pwys priodol a roddir i bob un o'r tair blaenoriaeth eu hunain.
- Y rhagolygon ar gyfer cyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn eich portffolio a pha mor fforddiadwy ydynt, gan gynnwys unrhyw asesiadau a wnaed ohonynt.
- Gwybodaeth yn ymwneud â sut y bydd cyflawni ymrwymiadau perthnasol y Rhaglen Lywodraethu, a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â hwy yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.
- Manylion ar unrhyw ymarferion cost a gynhaliwyd o ran ymrwymiadau perthnasol y Rhaglen Lywodraethu a'r tair blaenoriaeth addysg.

**Gwariant ataliol**

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor yn dymuno ystyried gwariant ataliol fel rhan o'i waith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2016-17. Dyma'r diffiniad o wariant ataliol a ddefnyddir i'r diben hwn:

> ...gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.

Gan gofio'r diffiniad hwnnw, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y canlynol:

- Y gyfran (os oes modd ei chyfrif) o'r gyllideb Addysg a Sgiliau a ddyrannwyd ar gyfer camau gwariant ataliol, a manylion am bolisïau neu raglenni penodol y bwriedir iddynt fod yn ataliol.
- Sut y caiff gwerth am arian rhaglenni o'r fath ei werthuso, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beth yw'r mewnbynnau penodol a'r canlyniadau a fwriedir.
- Sut y mae'r Adran yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwariant ataliol a chyflawni amcanion mwy brys (gan dderbyn, yn aml, efallai, na fydd y rhain yn annibynnol ar ei gilydd).

**Costau deddfwriaeth**

- Gwybodaeth am gostau a goblygiadau ariannol deddfwriaeth y Cynulliad a basiwyd yn ddiweddar, deddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth a gynllunnir o ran Addysg a Sgiliau sy'n debygol o gael effaith yn 2016-17. Mae'r rhain yn cynnwys *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*, *Deddf*

*Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014*, *Deddf Addysg (Cymru) 2014*, *Deddf Addysg Uwch (Cymru)*, *Deddf Cymwysterau Cymru 2015* a'r Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

- Gwybodaeth am effaith unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol y DU ar y gyllideb Addysg a Sgiliau.
- Costau a goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth neu Fesurau blaenorol, os bydd y rhain yn sylweddol ac yn effeithio yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17.

**Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill**

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â sut y mae cydraddoldebau, cynaliadwyedd, materion y Gymraeg a hawliau plant wedi'u hystyried wrth ddyrannu cyllidebau.  Ar gyfer cyllideb 2015-16, cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) cyffredinol, yn hytrach nag asesiadau effaith unigol gan bob adran.  Yn dibynnu ar beth yw dull gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17, hoffai'r Pwyllgor:

- Gael copi o'r Asesiad Effaith Hawliau Plant a gynhaliwyd i lywio'r dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant o ran Addysg a Sgiliau yng Nghyllideb Ddrafft 2016-17;
- Manylion am ba newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ran dyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Hawliau Plant;
- Gwybodaeth am sut y mae cydraddoldebau (gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig a sipsiwn a theithwyr mewn cysylltiad â'r Grant Gwella Addysg), cynaliadwyedd a'r Gymraeg wedi cael eu hystyried wrth ddyrannu'r gyllideb; ac unrhyw enghreifftiau lle mae ystyriaethau o'r fath wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ddyrannu'r gyllideb neu wedi newid cynigion cychwynnol.

**Meysydd penodol**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth am y meysydd penodol a ganlyn:

*Amddiffyn 1% o'r gyllideb ar gyfer ysgolion*

- Y trefniadau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu y bydd gwariant ar ysgolion Cymru yn cynyddu o leiaf 1% yn uwch na'r newid canrannol yn y grant bloc a gafwyd gan Lywodraeth y DU.
- Dadansoddiad tebyg i'r un a ddarperir yn Atodiad E y naratif ar y Gyllideb Ddrafft 2015-16 ar sut y caiff cyflawni'r ymrwymiad hwn ei gyfrifo hyd at 2016-17.

- Dadansoddiad o ffrydiau ariannu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau sy'n llunio'r elfen hon o gyflawni'r ymrwymiad 1%, sy'n debyg i'r hyn a ddarparwyd yn eich llythyr dyddiedig 11 Tachwedd 2014.
- O gofio bod y mwyafrif helaeth o ariannu ysgolion wedi'i gynnwys y tu allan i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau ac yn cael ei sianelu drwy Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol, sut ydych chi a'ch adran yn gweithio gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'i adran i annog awdurdodau lleol a sicrhau eu bod yn cyflawni o ran eu hagwedd hwy ar yr ymrwymiad 1%.

*Grant Amddifadedd Disgyblion*

- Manylion unrhyw werthusiad o fforddiadwyedd, gwerth am arian a chyfle ar gyfer ymarferion cost y polisi Grant Amddifadedd Disgyblion.
- Sut y mae adroddiad Blwyddyn 1 ar werthusiad WISERD, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014, ac unrhyw ddadansoddiad dilynol wedi dylanwadu ar bolisi o ran y Grant Amddifadedd Disgyblion.
- Unrhyw ddadansoddiad o effaith benodol a gwerth am arian ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion i blant o dan 5 oed o 2015-16 ymlaen.
- Unrhyw ddadansoddiad o effaith benodol a gwerth am arian y Grant Amddifadedd Disgyblion mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.
- Gwybodaeth am y trefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro'r defnydd o arian Grant Amddifadedd Disgyblion a, phan fydd angen, y camau a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael â defnydd amhriodol ohono.

*Her Ysgolion Cymru*

- Esboniad o'r cyllid ar gyfer rhaglen Her Ysgolion Cymru a'r berthynas rhwng blwyddyn academaidd a blwyddyn ariannol (h.y. ai blwyddyn ariannol 2014-15 a blwyddyn academaidd 2014/15 oedd Blwyddyn 1, ac ati?);
- Faint o amser y disgwylir i'r rhaglen bara, yn wreiddiol ac erbyn hyn, os yw'n wahanol;
- Manylion am gyllideb y rhaglen ar gyfer pob blwyddyn hyd yma, o ble y daeth y gyllideb ac unrhyw wariant a fwriedir yn 2016-17;
- Sut y mae gwerth am arian Her Ysgolion Cymru yn cael ei werthuso, yn enwedig y dyraniadau i'r consortia rhanbarthol.
- Pa feini prawf a osodwyd ar gyfer defnyddio arian Her Ysgolion Cymru, a pha ganlyniadau targed sydd wedi'u pennu.
- Goblygiadau ariannol y 'Cynnig Disgyblion'.

*Grant Gwella Addysg*

- Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith rhesymoli nifer o grantiau blaenorol i'r Grant Gwella Addysg unigol yn 2015-16, yn arbennig yr effaith ar gyfrifoldebau anstatudol awdurdodau lleol fel y cyfrifoldebau tuag at blant grwpiau lleiafrifoedd ethnig a sipsiwn-teithwyr.
- Unrhyw werthusiad o werth am arian a chanlyniadau o ran y Grant Gwella Addysg newydd o'i gymharu â grantiau blaenorol a oedd wedi'u neilltuo, neu unrhyw gynlluniau i gynnal ymarfer o'r fath yn y dyfodol agos.

*Cymwysterau:*

- Gwybodaeth am sut y mae gweithrediad parhaus yr Adolygiad o Gymwysterau 14 i 19 mlwydd oed yn cael ei ystyried yn y cyllidebau ar gyfer 2016-17.
- Dyraniadau i Gymwysterau Cymru, a sut y bydd costau ychwanegol y system reoleiddio cymwysterau newydd yng Nghymru yn cael eu talu yn 2016-17 a thu hwnt.

*Cwricwlwm*

- Y gyllideb a ddarperir yn 2016-17 ar gyfer gweithredu Adolygiad Asesu'r Cwricwlwm yr Athro Graham Donaldson.
- Sylwadau ar natur tymor hir gweithredu'r Adolygiad hwn, a chynaliadwyedd y cyllid i'w gefnogi.
- A yw'r cyllid ar gyfer gweithredu'r Adolygiad yn ychwanegol i'r gyllideb Addysg a Sgiliau neu a oes angen ei ganfod o fewn yr adnoddau presennol.

*Cymwys am Oes:*

- Mae'r Pwyllgor yn deall bod y Cynllun Gwella Addysg, *Cymwys am Oes*, yn cyfuno nifer o bolisïau a mentrau, ac felly, mae'r cyllid i gyflawni'r cynllun wedi'i gynnwys o fewn nifer o wahanol gyllidebau Addysg a Sgiliau.
- Fodd bynnag, byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed eich sylwadau ar ba drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod cyllid digonol ar gael i gyflawni'r cynllun gwella a sut y caiff y cyllid hwn ei ddosbarthu ar draws llinellau'r gyllideb.

*Consortia rhanbarthol ac Adolygiad Hill*

- Gwybodaeth am y gyllideb a ddarperir ar gyfer y pedwar consortia rhanbarthol, ac eglurhad ynghylch sut y mae'r gyllideb yn cynnwys cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru a chan awdurdodau lleol.
- Y trefniadau sydd ar waith i asesu gwerth am arian ac effaith y consortia rhanbarthol.

(Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad byr ar y consortia rhanbarthol)

- Y gyllideb a ddarperir ar gyfer unrhyw waith sy'n deillio yn sgîl gweithredu adolygiad Robert Hill, *Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol* ac esboniad o sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu ar draws y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau.

*Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon*

- Y gyllideb a ddarperir ar gyfer gwaith sy'n deillio yn sgîl gweithredu Adolygiad yr Athro John Furlong o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

*Datblygiad Proffesiynol Parhaus Athrawon*

- Y gyllideb a ddarperir ar gyfer gweithredu'r model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ('Y Fargen Newydd') a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.
- Sylwadau ar y goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Gweithlu Addysg yn ôl eu trefn.

*Arian cyfalaf ar gyfer gwelliannau i adeiladau ysgolion*

- Y gyllideb a ddarperir ar gyfer y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y targedau a'r amserlen ar gyfer darparu cam cyntaf y rhaglen.
- Y trefniadau ar gyfer monitro pa mor fforddiadwy yw ariannu'r elfen arian cyfatebol a hyfywedd prosiectau yn y dyfodol i awdurdodau lleol.

*Addysg cyfrwng Cymraeg*

- Y gyllideb a ddarperir i gefnogi gweithredu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol (WESPs).
- P'un a yw a / neu sut y mae'r gyllideb a ddarperir wedi cael ei dylanwadu gan gyfradd y cynnydd a nodir mewn adroddiadau blynyddol diweddar ar y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg.
- Manylion y cyllid ar gyfer y rhaglen Cymraeg i Oedolion, a sut mae'r dyraniadau'n adlewyrchu sefydlu'r Endid Cenedlaethol i arwain y rhaglen honno.

Noder: Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (CELG) yn gofyn am wybodaeth gan y Prif Weinidog am y gyllideb a ddarperir ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg gan fod y mater hwn yn rhan o'i bortffolio cyfrifoldebau ac mae'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwnnw, er bod y gyllideb, o 2015-16 ymlaen, yn rhan o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau. At ddibenion craffu ar y

gyllideb ddrafft, bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cwmpasu addysg cyfrwng Cymraeg tra bydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cwmpasu'r Gymraeg yn gyffredinol.

*Anghenion Dysgu Ychwanegol.*

- Y gyllideb a ddarperir ar gyfer gwaith datblygu pellach cyn y bwriad i gyflwyno deddfwriaeth ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.
- Goblygiadau ariannol cyhoeddi Bil drafft ar gyfer ymgynghori arno yn ystod 2015-16 yn hytrach na chyflwyno Bil gwirioneddol.
- P'un a yw / neu sut y mae astudiaeth Deloitte a gynhwyswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), yn dylanwadu ar y gyllideb a ddarperir ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2016-17.
- Gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer ariannu hyfforddiant i seicolegwyr addysg yng Nghymru, a'r wybodaeth ddiweddaraf am waith a wnaed i nodi'r model cynaliadwy ar gyfer y tymor hwy. (Yng ngoleuni eich datganiad ar 23 Medi 2015, ynghylch y cytundeb i ariannu'r Rhaglen Ddoethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol (DEdPsy) ym Mhrifysgol Caerdydd, sef yr unig gwrs o'r fath yng Nghymru.)

*Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*

- Manylion unrhyw ffrydiau cyllido ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) ac ychydig o sylwadau cryno ar hyn yng nghyd-destun gwaith ymchwil Prifysgol Caeredin a gyhoeddwyd yn 2013 a'r adolygiad y mae Estyn wedi cael y dasg o'i gynnal yn 2015-16.
- Manylion unrhyw gyllid penodol ar gyfer Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion a goblygiadau ariannol diwygio'r canllawiau a'u gweithredu wedyn.

*Addysg bellach*

- Effaith dyraniadau 2014-15 a 2015-16 ar golegau addysg bellach a faint o ymgysylltu a fu gyda'r sector i drafod eu dyraniadau ar gyfer 2016-17.
- Pa asesiad sydd wedi'i wneud o allu colegau i ymdopi â gostyngiadau cyllid yn y blynyddoedd diwethaf a'r effaith ar ddysgwyr.
- Yn 2014-15 a 2015-16, ceisiodd Llywodraeth Cymru ddiogelu dysgwyr 16 i 18 mlwydd oed rhag gostyngiadau i'r gyllideb addysg ôl-16. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael eglurhad o sut y mae hyn wedi gweithio yn ymarferol, a chlywed am unrhyw asesiad o'r effaith ar bobl ifanc 16-18 mlwydd oed a dysgwyr hŷn.

- Dadansoddiad, ar gyfer 2015-16 ac ar gyfer 2016-17 os yw ar gael eto, o Linell Wariant yn y Gyllideb Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (WGLG) [y teitl yn 2015-16] sy'n cynnwys y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Uwch a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach.
- Y ddarpariaeth ar gyfer cronfeydd ariannol wrth gefn mewn addysg bellach, ac a effeithiwyd ar y dyraniadau o gwbl gan y cynllun dichonolrwydd peilot, *Gofal i Ddysgu,* sy'n cefnogi myfyrwyr gyda chostau gofal plant, a'r *Cynllun Teithio Gostyngol i Bobl Ifanc*. (Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw cyfrifoldeb am y naill gynllun na'r llall o fewn eich portffolio chi, ond mae'n gofyn oherwydd bod gofal plant a chludiant i gyfrif am y ddau ddefnydd mwyaf o gronfeydd ariannol wrth gefn.)

*Addysg uwch*

- Y gyllideb a ddarperir ar gyfer refeniw Addysg Uwch ac asesiad diweddar o'r incwm sydd ar gael i'r sector addysg uwch, gan gynnwys Cyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Goblygiadau'r drefn newydd o lywodraethu, a rheolaethau a sefydlwyd gan y *Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015* yn 2016-17.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y dull modelu diweddaraf o ran costau'r Grant Ffioedd Dysgu ac asesiad o ba mor fforddiadwy yw'r polisi, ei werth am arian a chyfleoedd am ymarferion cost o ran y polisi. Yn ogystal â hyn:
    - Y swm, mewn grantiau ffioedd dysgu, a dalwyd o ran myfyrwyr sy'n mynychu sefydliadau yng Nghymru a sefydliadau y tu allan i Gymru, yn y drefn honno, yn y blynyddoedd blaenorol.
    - Amcan o gostau ar gyfer 2016-17.
- Esboniad ynghylch ble, yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau, y caiff taliadau grant ffioedd dysgu eu nodi, a disgrifiad o beth y mae'r llinellau gwariant yn y gyllideb a ganlyn yn eu hariannu:
    - Refeniw Addysg Uwch
    - Darparu cyllideb Benthyciadau Cynhaliaeth Preswyl
    - Gwariant a reolir yn flynyddol ar Gyfalaf Benthyciadau Myfyrwyr
    - Gwariant a reolir yn flynyddol ar Refeniw Benthyciadau Myfyrwyr
- Polisi Llywodraeth Cymru o ran llyfr benthyciad myfyriwr Cymru ac unrhyw oblygiadau o ran gwerth hwn fel ased ariannol o werthiant arfaethedig y

gyfran gyntaf o incwm llyfr benthyciadau wrth gefn cyn dyddiau Gordon Browne yn Lloegr.

- Y cronfeydd ariannol wrth gefn a ddarperir ar gyfer y maes addysg uwch, a chadarnhad o drefniadau'r flwyddyn academaidd 2015/16. (Mae'r Pwyllgor yn deall y bydd disgwyl i sefydliadau addysg uwch ariannu 'cronfeydd caledi' myfyrwyr o'u hadnoddau eu hunain o'r flwyddyn academaidd 2015/16 ymlaen.)

Noder: Caiff 'Addysg Uwch' ei restru fel rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Menter a Busnes, yn dilyn y **newid i bortffolios a chyfrifoldebau pwyllgorau, ym mis Ionawr 2014**. Bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn canolbwyntio ar faterion cyllido, llywodraethu a chymorth i fyfyrwyr yn gyffredinol a bydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn canolbwyntio mwy ar gyfraniad addysg uwch i'r economi a sgiliau.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y wybodaeth uchod erbyn **Dydd Iau 10 Rhagfyr**.

Gyda llawer o ddiolch am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir



**Ann Jones AC**
Cadeirydd